

## **CYNGOR CYMUNED LLANFAIR DYFFRYN CLWYD COMMUNITY COUNCIL**

[www.llanfaircommunitycouncil.co.uk](http://www.llanfaircommunitycouncil.co.uk)

Cofnodion Cyfarfod Cyffredin y Cyngor a gynhaliwyd gan ddefnydd platfform ffôn/fideo gynadledda Zoom nos Lun, 12 Hydref 2020 am 7pm.

**PRESENNOL** – Y Cyngorwyr Jayne Mayers [Cadeirydd], Keith Mouldsdales [Is-gadeirydd], David Baker, Bob Barton, Owen Evans, Tim Faire, Osian Owen, Ceri Ranson, Steve Whipp ac Eirwen Godden, Clerc.

**HEFYD YN BRESENNOL** – 3 aelod o'r cyhoedd.

**YMDDIHEURIADAU** – Y Cyngorwyr Sir Hugh H Evans OBE [methu cysylltu ar Zoom, wedi ceisio cysylltu ar y ffôn ond yn aflwyddiannus] a'r Cyngorwyr Wini Davies [angladd teuluol].

### **RHAN 1**

**703 DATGAN BUDDIANNAU** Y Cyngorwyr David Baker fel aelod o Gyngor Eglwys Llanfair a'r Cyngorwyr Keith Mouldsdales fel ymddiriedolwr Pwyllgor Rheoli Neuadd Eleanor. Dywedodd y Cyngorwyr Keith Mouldsdales ei fod yn dymuno gwneud datganiad yn ddiweddarach yn ystod y cyfarfod.

### **704 COFNODION – PENDERFYNWYD**

Cymeradwyo cofnodion Cyfarfod Cyffredin a gynhaliwyd ar 14 Medi 2020 a'u llofnodi fel cofnod cywir.

### **705 MATERION CYMUNEDOL**

**705.1 Safle hen ysgol Llanfair DC** Cyflwynwyd nodiadau'r cyfarfod agored ar-lein a gynhaliwyd ar 03/10/20. Pwrpas y cyfarfod oedd casglu barn y trigolion a rhoi cyfle arall i bobl gynnig syniadau, ac esbonio'r broses mae'r Cyngor Cymuned yn ei dilyn. Yn dilyn y rhestr o sylwadau a syniadau a dderbyniwyd, yn cynnwys y syniad o siop gymunedol, gofynnwyd i'r Clerc gysylltu gyda thair siop gymunedol i gael gwybod eu profiadau ac roedd yn aros am ymatebion. Gwnaed pob ymdrech i gysylltu â phawb a oedd wedi ymwneud â'r broses i'w hysbysu y byddai diweddiadau ar gael ar wefan y Cyngor Cymuned. Cyhoeddwyd erthyglau yng Nghronicl Dyffryn Clwyd hefyd. Mae'r Cyngorwyr Sir Hugh Evans wedi pwysleisio pwysigrwydd llunio cynllun sut i fwrw ymlaen, yn cynnwys ffurfio grŵp llywio a ddylai gynnwys unigolion nad ydynt yn gyngorwyr yn bennaf. Roedd y Cyngorwyr Evans yn dymuno gweld adeilad yr ysgol yn cael ei ddefnyddio eto gynted ag y bo modd. Mae'r gymuned yn ystyried nifer o ddewisiadau ac awgrymiadau a bydd y datrysiad delfrydol yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor Sir dan y broses trosglwyddo ased cymunedol. Yn y cyfamser mae swyddogion Cymdeithas Tai Clwyd Alyn wedi dweud eu bod yn fodlon cymryd rhan mewn cyfarfod dechreuol gyda'r Cadeirydd, yr Is-gadeirydd a'r Clerc i ddeall y gwahanol opsiynau dan ystyriaeth gan y Cyngor Cymuned, yn enwedig o ran Elusendai Elizabeth Owen.

Cyflwynwyd Papur Trafod hefyd yn cynnwys dewisiadau ynghylch Ysgol Llanfair a dadansoddiad meini prawf a baratowyd gan y Cyngorwyr Steve Whipp, Mr Phil Bennett Lloyd a Mr Richard Cotter. Roedd hyn yn cynnwys nodyn esboniadol ar gyfer y dadansoddiad opsiynau. Cadarnhawyd fod yr holl ddogfennau wedi'u rhoi ar wefan y Cyngor Cymuned. Mae Cyngor Cymuned Llanfair DC wedi bod yn ystyried defnydd yr hen ysgol yn y dyfodol ers cryn amser ac wedi bod mewn cysylltiad gyda Chyngor Sir Ddinbych. Mae'r ysgol wedi bod yn wag ers Chwefror 2020 a chynghorodd Cyngor Sir Ddinbych nad oedd ganddo ragor o ddefnydd i'r safle ac mae'r Cyngor Cymuned wedi

bod yn ystyried y dewisiadau ac yn ymgysylltu gyda thrigolion y pentrefi i gael eu barn. Cynigiwyd nifer o syniadau cyffrous ac mae'r Cyngor Cymuned yn ceisio adnabod y ffordd orau o ddefnyddio'r safle'n y dyfodol. Yr egwyddor arweiniol yw y dylai'r defnydd yn y dyfodol roi'r budd uchafswm i'r gymuned gyfan.

Cyflwynwyd yr opsiynau ar gyfer defnydd yr ysgol mewn matrices a oedd yn nodi'r holl syniadau a gynigiwyd ar gyfer defnydd yr hen ysgol yn y dyfodol, y buarth a'r cae chwarae ac yn ystyried pob un. Ystyriwyd yr opsiynau yn erbyn yr anghenion a nodwyd mewn nifer o ddogfennau. Er enghraifft, mae gan y Cyngor Cymuned Gynllun Cymdogaeth sy'n nodi gweledigaeth ar gyfer y pentrefi'n y dyfodol ac yn nodi nifer o anghenion. Yn ychwanegol mae dogfennau polisi a strategaeth sirol a gwladol sy'n nodi'r cefndir o ran anghenion y dyfodol.

Roedd y matrices yn rhestru'r holl syniadau a gynigiwyd a'u sgorio yn erbyn y dogfennau polisi a strategaeth, lleol a gwladol, i weld sut roedd pob syniad yn bodloni'r amcanion a bennwyd. Cynhaliwyd yr ymarfer yn gyflym a chyflwynwyd y matrices fel "dyn gwellt" i ffurfio sail ar gyfer trafod y syniadau a chynorthwyo i wneud penderfyniadau ynghylch y canlyniad gorau. Datblygwyd y matrices gyda graddau o wirio'n wrthrychol, ond bydd rhai materion yn parhau y byddai angen rhagor o drafodaeth ac eglurhad yn eu cylch. Byddai'r Cyngor Cymuned yn croesawu rhagor o fewnbwn gan yr holl drigolion â diddordeb i gynorthwyo gyda datblygu'r strategaeth ar gyfer yr ysgol a'r safle er mwyn blaenoriaethu'r syniadau a llunio rhestr fer y syniadau sy'n cyflwyno'r budd gorau i'r gymuned.

Esboniodd y Cynghorydd Steve Whipp fod tri cham i broses trosglwyddo ased cymunedol yn dilyn canllawiau Llywodraeth Cymru. Y cam cyntaf yw mynegi diddordeb yn anffurfiol i'w ystyried gan y Cyngor Sir. Roedd y Cyngor Cymuned wedi mynegi diddordeb yn anffurfiol i Gyngor Sir Ddinbych, a dderbyniwyd. Yr ail gam yw mynegi diddordeb yn ffurfiol i'w ystyried gan Gyngor Sir Ddinbych. Petai'n llwyddiannus, y trydydd cam fyddai datblygu a chyflwyno achos busnes manwl yn nodi'r hyn sy'n ofynnol, yn cynnwys y costau cyfalaf, y costau cynnal a chadw a'r costau a'r dull rheoli. Gallai camau dechreuol y broses gymryd o leiaf tri mis yn arferol. Pwysleisiodd Mr Phil Bennett- Lloyd bwysigrwydd cael pobl a fyddai'n cefnogi'r prosiect i gymryd rhan i gyflawni nifer o ddeilliannau a chanolbwyntio ar yr hyn o ddewisir fel bo cymaint o'r gymuned ag y bo modd yn cymryd rhan yn y broses. Dywedodd y Cadeirydd Jayne Mayers fod rhai i'r gymuned fod yn ymwybodol y gall y Cyngor Cymuned hwyluso'r broses ond ni allai fod yn gyfrifol am gynnal unrhyw gynlluniau, fod rhaid i grŵp llywio arwain ar unrhyw syniad[au] ac y byddai pawb sydd wedi cyflwyno sylwadau yn cael gwahoddiad i fod yn rhan o grŵp llywio.

**PENDERFYNWYD** yn unfrydol [a] y dylai'r Cyngor Cymuned fynegi diddordeb ffurfiol i'r Cyngor Sir am drosglwyddo ased cymunedol o ran cae chwarae'r ysgol flaenorol yn Llanfair, [b] anfon copi o'r cais i'r holl Gynghorwyr a thrigolion a oedd wedi cyflwyno sylwadau neu syniadau ar gyfer y safle a [c] gwahodd pobl i gymryd rhan mewn grŵp llywio.

Byddai ymgynghori ynghylch defnydd potensial adeilad yr ysgol a'r cae chwarae'n parhau ac unwaith y penderfynir ar y defnydd gorau byddai cais Trosglwyddo Ased Cymunedol [cam 2] yn cael ei gyflwyno i Gyngor Sir Ddinbych.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Cynghorydd Steve Whipp, Mr Phil Bennett-Lloyd, Mr Richard Cotter ac eraill am eu hymdrechion hyd yma.

## **706 GOHEBIAETH**

**706.1** Cyflwynwyd neges e-bost dyddiedig 28/09/20 gan Lywodraeth Cymru ynghylch Gwasanaeth Coffa 2020 yng nghyswllt Covid-19. Mae trefnwyr yn cael eu hannog i wirio a monitro cyhoeddiadau'n rheolaidd o ran gweithgareddau a ganiateir. Roedd y Clerc wedi cysylltu gyda'r Parchedig Richard Carter ynghylch y mater. Roedd y Parchedig Carter wedi dweud y byddai'n arferol cael Gweithred Goffa am 11 o'r gloch y bore wrth y Gofeb Rhyfel. Caniateir hyn ar hyn o bryd ond gallai pethau newid ac mae angen monitro'r sefyllfa a bod yn ymwybodol o'r canllawiau diweddaraf.

Trefnwyd cynnal cyfarfod Pwyllgor Eglwys Llanfair ddydd Llun, 2 Tachwedd 2020, pan fwriedir gwneud penderfyniad terfynol p'un ai i fwrw ymlaen gyda'r Weithred Goffa wrth y Gofeb Rhyfel ar Sul y Cofio eleni. Bydd y penderfyniad yn ystyried y canllawiau mewn grym bryd hynny, ystyriaethau Pwyllgor yr Eglwys a'r cynnydd neu gwblhau posibl gwaith adfer y Gofeb. Roedd yr aelodau'n cytuno y gellid bwrw ymlaen gyda gwasanaeth yn yr awyr agored wrth y Gofeb cyn belled ag y cedwir at y rheolau cadw pellter cymdeithasol a gwisgo gorchudd wyneb. Byddai hyn yn ddarostyngedig i gynnal asesiad risg hefyd.

**706.2** Cyflwynwyd neges e-bost dyddiedig 29/09/20 gan [IRPMailbox@gov.wales](mailto:IRPMailbox@gov.wales) yn datgan fod Adroddiad Drafft 2021/22 Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol wedi'i gyhoeddi ar gyfer ymgynghori. Mae Adran 13 yn berthnasol i Gynghorau Tref a Chymuned. Angen sylwadau erbyn 23/11/20. Cytunwyd mabwysiadu'r taliadau fel y'u nodwyd yn y ddogfen ac a gytunwyd yng nghyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 09/03/20, cofnod rhif 663.4.

**706.3** Cyflwynwyd neges e-bost dyddiedig 30/09/20 gan Dîm Datblygu Cymunedol Cyngor Sir Ddinbych ynghylch y Siarter rhwng Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned a Chyngor Sir Ddinbych. Y prif feysydd sydd wedi newid oedd defnyddio dulliau cyfathrebu electronig fel y dull safonol, cyfeiriad at y system C360, hysbysu am a hyrwyddo'r gefnogaeth sydd ar gael i grwpiau cymunedol a rhannu gwybodaeth. Angen ymatebion erbyn 30/11/20. Gofynnwyd i'r aelodau anfon eu sylwadau at y Clerc, yn enwedig ynghylch defnyddio fideo gynadledda ar gyfer cyfarfodydd.

**706.4** Cyflwynwyd neges e-bost dyddiedig 05/10/20 gan Unllais Cymru ynghylch cynrychiolydd Cyngor Cymuned ar Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych. Dylai unrhyw un â diddordeb mewn cyflwyno enw anfon neges e-bost at [mabowain@onevoicewales.wales](mailto:mabowain@onevoicewales.wales) yn nodi enw, manylion cyswllt a dim mwy na 150 o eiriau ynghylch y rhesymau am enwebu, yn cynnwys sgiliau a phrofiad, erbyn 28/10/20. Nodwyd.

## **707 Adborth/Adroddiad[au] o Gynadleddau/Hyfforddiant/Cyfarfodydd -**

**707.1** Band eang Adroddodd y Cynghorydd Bob Barton fod y Cynghorydd Sir Hugh Evans wedi cytuno i ychwanegu cyflwyniad i daflen a oedd yn cael ei llunio. Byddai'r Cynghorydd Barton yn rhannu copi maes o law.

## **708 CYNLLUNIO [www.sirddinbych.gov.uk/cynllunio](http://www.sirddinbych.gov.uk/cynllunio)**

Cadarnhawyd y gweithredu ar ymatebion rhwng cyfarfodydd fel a ganlyn:

**708.1 Cais 20/2020/0655** a gyflwynwyd gan Mr a Mrs C Rawes – dymchwel y garej sy'n bodoli, adeiladu garej newydd yn cynnwys storfa ac ystafell ardd – Ffolt, Llanfair DC – Ni dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiadau; cefnogwyd y cais.

Ystyriwyd y cais isod yn y cyfarfod:

**708.2 Cais 20/2020/0741** a gyflwynwyd gan Mr a Mrs G Evans ynghylch adeiladu derbynfa, siop a chaffi a gwaith cysylltiedig ym Maes Carafanau Llanbenwch, Llanfair DC. **PENDERFYNWYD** cefnogi'r cais. Nododd yr aelodau fod y cynnig yn cyd-fynd yn dda gyda Chynllun Cymdogaeth y Cyngor Cymuned, fel ychwanegiad i'r seilwaith twristiaeth yn y dyffryn, a gallai trigolion lleol ddymuno defnyddio'r cyfleusterau ychwanegol hefyd. Awgrymwyd y gallai llwybr cylchol yn cysylltu'r holl bentrefi yn ardal y Cyngor Cymuned fod yn fuddiol iawn. Roedd y perchennog tir eisoes wedi dweud ei fod yn barod i greu llwybr newydd ar draws y tir ar ffordd Tŷ Newydd.

**708.3 Cynllun Datblygu Lleol** Mae Adran Cynllunio Cyngor Sir Ddinbych yn gweithio ar dystiolaeth dechnegol gefndirol ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol newydd Cyngor Sir Ddinbych, ond mae'r argyfwng Covid-19 presennol yn effeithio ar y broses gwneud penderfyniadau, ymgysylltu gyda'r cyhoedd a'r gallu i gynnal gwaith maes a bydd angen diwygio'r amserlen a nodwyd yn y Cytundeb Cyflawni. Mae Cyngor Sir Ddinbych yn bwriadu cyhoeddi diweddariad mwy cyffredinol ynghylch y Cynllun Datblygu Lleol newydd yn yr wythnosau nesaf. Nodwyd.

## **709 PRIFFYRDD A'R AMGYLCHEDD**

### **709.1 Gardd Gymunedol Graigfechan a llwyni ym Mron y Clwyd, Llanfair DC**

Adroddwyd fod Cyngor Sir Ddinbych yn y broses o ymgynghori gyda thrigolion lleol ynghylch cynigion i ddatblygu darn bach o dir ger y byngalos yng Nghraigfechan fel gardd gymunedol. Holwyd pwy fyddai'n gyfrifol am gyllido'r prosiect a chostau cynnal a chadw dilynol. Anfonwyd copi drafft y cynllun/holiadur at yr aelodau am sylwadau cyn ei anfon at y trigolion. Roedd y Clerc yn aros am ymateb gan Dai Sir Ddinbych ynghylch cyflwr y llwyni ym Mron y Clwyd, Llanfair DC.

**709.2 Goryrru** Dim diweddariad ar gael – aros am ateb. Dywedodd y Cynghorydd Steve Whipp na all y teclynnau cofnodi cyflymder a ddefnyddir gan wirfoddolwyr gofnodi rhifau cofrestru ceir. Dim ond offer yr heddlu all wneud hyn.

**709.3 Arwyddion** Holodd y Cynghorydd Osian Owen a fyddai'n bosibl i fynegbost Ysgol Pentrecelyn gael ei osod ar yr A525 wrth groesfordd Lllysfasi. Cytunwyd codi'r mater gyda'r Adran Priffyrdd.

## **710 DATGANIAD GAN Y CYNGHORYDD KEITH MOULSDALE**

Roedd y Cynghorydd Mouldale yn dymuno cofnodi'r gwaith gwych roedd y Cynghorydd Jayne Mayers yn ei wneud fel Cadeirydd dan amgylchiadau anodd, yn enwedig rheoli cyfarfodydd Zoom a rheoli Aelod penodol sy'n torri'r Rheolau Sefydlog yn gyson. Ymatebodd y Cynghorydd Bob Barton trwy dweud ei bod yn amlwg fod y sylw yn cyfeirio ato ef a'i fod yn gwrthod derbyn yr honiad.

## **711 MATERION ARIANNOL**

### **711.1 Cyflwynwyd crynodeb o'r Incwm a Gwariant a'r Llyfr Derbyniadau a Thaliadau am y cyfnod 1 Gorffennaf – 30 Medi 2020**

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cyfrifon.

### **711.2 Talu Cyfrifon/Anfonebau PENDERFYNWYD** gwneud taliadau fel a ganlyn:

£167.61 Treuliau'r Clerc Gorffennaf – Medi 2020 [dosbarthwyd copi i'r aelodau cyn y cyfarfod] [Cymeradwywyd fod y Clerc yn prynu sgrîn cyfrifiadur]

£34.09 Fiona Faire [Planhigion ar gyfer blychau'r Gofeb Rhyfel] [Diolchwyd i Mrs Faire am ofalu am y blychau blodau]

£116.11 Zurich [Yswiriant ar gyfer y gwaith ychwanegol sy'n cael ei wneud ar y Gofeb Rhyfel]

£126.66 Sandra Williams [Gwasanaeth Cyfieithu]

### **711.3 Ceisiadau am Gymorth Ariannol** Ni dderbyniwyd unrhyw geisiadau.

**711.4 Hysbysfyrddau'r Cyngor** Cadarnhaodd y Clerc nad oedd gan benaethiaid y ddwy ysgol, Ysgol Llanfair ac Ysgol Pentrecelyn, unrhyw wrthwynebiad i osod hysbysfyrddau'r Cyngor ar ffens yr ysgol ger y mynedfeydd. Cysylltwyd gyda Chyngor Sir Ddinbych i ganfod [a] a allai'r awdurdod lleol drefnu i'r hysbysfwrdd ar gyfer defnydd cymunedol yn Llanfair gael ei adleoli i nesaf at yr arosfan bus ym Mron y Clwyd, [b] gofyn am eglurhad ynghylch cael caniatâd ar gyfer yr hysbysfyrddau newydd yn y ddau safle. Disgwylir am ymateb. Mae'r costau dangosol prynu hysbysfwrdd gyda drws yn codi yn y blaen [yn mesur 8 x A4 750mm uchder x 1000mm lled x 75mm dyfnder] wedi'i wneud o alwminiwm wedi'i anodeiddio o gwmpas £500 yr un, yn cynnwys llythrennau arnynt a'u gosod. Cytunwyd rhoi pwerau dirprwyedig i'r Cadeirydd, yr Is-gadeirydd a'r Clerc i gomisiynu hysbysfyrddau newydd a'u gosod, ac adleoli'r hysbysfwrdd cyfredol yn Llanfair.

### **711.5 Diweddariad ynghylch y broses Archwiliad Allanol**

Cyhoeddwyd y datganiadau cyfrifyddu ar ffurf dychweliad blynyddol ar wefan y Cyngor. Fodd bynnag, mae'r cyfrifon wedi'u cyhoeddi cyn cwblhau'r archwiliad. Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol wedi cyhoeddi barn archwilio eto oherwydd effeithiau Covid-19. Adroddwyd fod y dyddiad cwblhau'r archwiliad wedi'i ymestyn i 31 Rhagfyr 2020.

## **RHAN 2 712 PENDERFYNWYD gwahardd y Wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod oherwydd natur gyfrinachol yr eitem a ganlyn:**

### **713.1 GWAITH TRWSIO AC ATGYWEIRIO'R GOFEB RHYFEL YN LLANFAIR DC**

Adroddwyd fod gwaith i dynnu'r slabiau cerrig a gosod ffens ddiogel wedi dechrau ar 06/10/20. Roedd Mr John Pugh, yn gweithredu fel asiant y Cyngor, wedi cyfarfod gyda'r contractwr ar y safle ar 09/10/20 pan ganfuwyd fod y garreg o gwmpas gwaelod y gofeb yn dywodfaen llwyd ansawdd gwael ac fod angen ei adnewyddu. Argymhellir calchfaen ar gost o £485 + TAW, i'w gymryd o'r swm wrth gefn. Hysbyswyd y Cadeirydd a'r

Is-gadeirydd a chytunwyd i'r gwaith ddechrau gan fod amser yn dyngedfennol.  
Anfonwyd copi o adroddiad y cyfarfod safle at yr aelodau yn y cyfamser.  
Cymeradwyodd yr aelodau'r gweithredu gan y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd. Mae dod o  
hyd i saer maen i ddiweddarau'r ysgrifiad ar y gofeb cyn Sul y Cofio yn peri problemau,  
fodd bynnag.

#### **714 DYDDIADAU CYFARFODYDD YN Y DYFODOL**

09/11/20 [cyfarfod ar-lein], 14/12/20 [cyfarfod ar-lein], 11/01/21 [Coleg Cambria Llysfasi  
– i'w gadarnhau], 08/02/21 Ysgol Llanfair – i'w gadarnhau], 08/03/21 [Ysgol Pentrecelyn  
– i'w gadarnhau]

Gorffennodd y cyfarfod am 8.15 pm.

\_\_\_\_\_ CADEIRYDD \_\_\_\_\_ DYDDIAD